Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Deintyddfa Colchester

19 Mai 2015

Gellir darparu’r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd amgen a fformatau eraill gael eu llunio, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.
Ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: AGIC@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

Digidol ISBN 978-1-4734-3921-4
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Methodoleg .......... 2

3. Cyd-destun .......... 4

4. Crynodeb .......... 5

5. Canfyddiadau .......... 6

Profiad y Claf .......... 6

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal .......... 9

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 14

Ansawdd yr Amgylchedd .......... 17

6. Y Camau Nesaf .......... 18

Atodiad A .......... 19

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Colchester, 1–3 Lady Margaret Court, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9AW, o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 19 Mai 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Arweinyddiaeth a rheolaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a’r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Rhoddir manylion am unrhyw ganfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Colchester yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Pen-y-lan, Caerdydd. Mae’r practis yn ffurfio rhan o ystod o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Mae Deintyddfa Colchester yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy’n cynnwys un prif ddeintydd, un deintydd dan hyfforddiant, un rheolwr practis (sydd hefyd yn gweithio wrth y dderbynfa), dwy nyrs ddeintyddol, a dau hylenydd.

Darperir ystod lawn o wasanaethau deintyddol y GIG a deintyddiaeth breifat, sy'n cynnwys y canlynol:

- Asesiadau a thriniaethau'r geg
- Hylendid deintyddol
- Mewnblaniadau deintyddol
- Tynnu dannedd, llenwadau’r gwreiddyn, pontydd, a dannedd gosod

Mae’r prif ddeintydd hefyd yn hyfforddwr Deintyddol Sylfaenol cymwys. O ganlyniad, mae’r ddeintyddfa'n cynnig lleoliadau a chymorth i ddeintyddion sydd newydd gymhwyso ac sy’n cyflawni eu blwyddyn gyntaf mewn practis deintyddol (ar ôl cwblhau eu gradd brifysgol).

## 4. Crynodeb

Ymchwiliodd AGIC i sut mae Deintyddfa Colchester yn cyrraedd safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Roedd 19 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y ddeintyddfa a’u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwnaethom siarad â dau glaf a wnaeth fynychu'r ddeintyddfa ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd y ddau ohonynt eu bod yn fodlon iawn ar eu gofal a'u triniaeth.

Gwelsom y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd pob aelod o'r tîm deintyddol yn ei ddefnyddio.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol. Gwelsom fod cofnodion y cleifion o safon uchel iawn yn gyffredinol.

Rydym wedi gwneud argymhellion i wella agweddau gweinyddol ar y broses amddiffyn rhag ymbelydredd, yn ogystal ag agweddau ar y gwaith cofnodi yng nghofnodion y cleifion. Gwnaethom hefyd nodi bod angen gwella'r amgylchedd clinigol yn y brif ystafell driniaeth ddeintyddol.

Roedd y ddeintyddfa wedi'i hen sefydlu ac roedd yn cael ei rhedeg yn dda gan y prif ddeintydd a rheolwr practis, ac roedd y ddau ohonynt yn cael eu cynorthwyo gan dîm bach brwdfrydig ac eiddgar. Roedd gan y practis systemau rheoli a phrosesau priodol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion.

Gwelsom fod amgylchedd y practis yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Roedd 19 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y ddeintyddfa a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.**

**Gwnaethom siarad â dau glaf a wnaeth fynychu'r ddeintyddfa ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd y ddau ohonynt eu bod yn fodlon iawn ar eu gofal a'u triniaeth.**

**Gwelsom y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd pob aelod o'r tîm deintyddol yn ei ddefnyddio.**

Cwblhawyd 19 o holiaduron cleifion AGIC cyn dyddiad yr arolygiad. Nododd pob un o'r cleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y ddeintyddfa a'u bod yn cael croeso gan y staff. Gwelsom hefyd y dull gwresog, cyfeillgar a phroffesiynol o gyfathrebu â chleifion roedd pob aelod o'r tîm deintyddol yn ei ddefnyddio (dros y ffôn ac wyneb yn wyneb).

Dywedodd wyth claf wrthym eu bod wedi profi rhywfaint o oedi cyn i'r deintydd eu gweld ar ddiwrnod eu hapwyntiad, ond fel arfer nid oedd hyn yn fwy na deng munud. Clywyd un claf a oedd yn mynychu'r practis ar ddiwrnod ein harolygiad yn gofyn am oediad i'w hamser apwyntiad. Roedd yr aelod o staff a wnaeth ymateb i'r ymholiad yn ymddiheurol iawn, a siaradodd yn brydlon â'r deintydd dan sylw i ofyn faint yn hirach y byddai'n rhaid i'r claf aros; rhannwyd yr ateb â'r claf.

Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *'Rydw i'n llawn canmoliaeth ac yn ddiolchgar i'r tîm yn Neintyddfa Colchester.'*
>
> *'Yn wirioneddol 100% ardderchog. Y deintyddion a'r tîm deintyddol gorau rydw i erioed wedi eu profi.'*
>
> *'Rydw i bob amser yn ddiolchgar i bawb yn y ddeintyddfa am eu holl ofal a'r sylw maen nhw wedi eu rhoi i fy nheulu a minnau.'*
>
> *'Rydw i'n fodlon iawn ar y ddeintyddfa hon.'*
>
> *'Rydw i'n fodlon iawn ar y system negeseuon testun ac e-byst.'*

Gwnaethom siarad â dau glaf a wnaeth fynychu'r ddeintyddfa ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd y ddau ohonynt eu bod yn fodlon iawn ar eu gofal a'u triniaeth.

Nododd wyth o'r cleifion a gwblhaodd un o'n holiaduron nad oeddent yn gwybod sut i gael gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau gwaith. Fodd bynnag, gwelsom arwydd yn ffenestr y practis yn dangos y rhif ffôn mewn argyfwng, a chadarnhawyd bod rhif cyswllt yn cael ei roi ar neges peiriant ateb y ddeintyddfa. Hefyd, roedd ffolder wybodaeth yn yr ystafell aros. Roedd hon yn cynnwys taflen wybodaeth y ddeintyddfa, a oedd yn rhoi gwybodaeth a chyngor i gleifion ynglŷn â sut i gael triniaeth frys y tu allan i oriau gwaith arferol. Golygai hyn ei fod yn hawdd i gleifion ddod o hyd i wybodaeth y tu allan i oriau, pe bai angen.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd staff wrthym eu bod yn trafod dewisiadau o ran triniaethau gyda'r cleifion, a gwelsom dystiolaeth o hyn wedi ei chofnodi yn nodiadau’r cleifion.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiad ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Roedd apwyntiadau brys ar gael yn y ddeintyddfa bob dydd, a oedd yn galluogi cleifion i gael eu gweld yn gyflym os oedd angen. Gwelsom un claf (a wnaeth fynychu'r ddeintyddfa ar ddiwrnod yr arolygiad) yn cael cynnig dewis o apwyntiadau ar gyfer triniaeth barhaus, ac wrth drafod ag aelod o'r tîm deintyddol, cadarnhawyd bod negeseuon testun yn cael eu hanfon at gleifion cyn eu hapwyntiad er mwyn lleihau'r siawns y byddent yn ei golli.

Roedd gan y ddeintyddfa wefan fanwl a oedd yn bodloni holl safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu, yn ogystal â thaflen wybodaeth i gleifion mewn print bas, pe bai angen. Roedd gwybodaeth sylfaenol am y practis ar gael hefyd drwy wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Gwnaeth sgwrs â'r tîm deintyddol ddatgelu bod y cleifion yn cael eu hannog i rannu eu barn am y gwasanaeth a gawsant ar lafar pan maent yn mynychu'r ddeintyddfa. Dywedodd y staff hefyd fod y ddeintyddfa wedi cwblhau arolwg cleifion yn ystod 2012 a bod yr ymatebion a gafwyd yn gadarnhaol. At hynny, cyflwynodd y ddeuntyddfa, yn ddiweddar iawn, flwch awgrymiadau yn ystafell aros y cleifion er mwyn galluogi pobl i roi sylwadau am y gwasanaethau a ddarparwyd mewn ffordd ddienw, os oedd yn well ganddynt wneud hynny. Fe'n hysbyswyd bod cynnwys y blwch yn cael ei wirio bob wythnos er mwyn ceisio gwella'r gwasanaeth, cyn belled ag y bo modd. Golygai hyn fod systemau ar waith i alluogi cleifion i roi adborth i'r ddeintyddfa.

Pan ofynnwyd iddynt ynglŷn â sut i wneud cwyn am eu gofal neu eu triniaeth, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod naill ai’n gwybod sut i

hysbysu staff y ddeintyddfa am unrhyw bryderon oedd ganddynt, neu nad oedd ganddynt reswm i gwyno. Dangosodd saith o'r cleifion nad oeddent yn gwybod sut i nodi pryderon nac i wneud cwyn ychwaith. Gwelsom fod poster cwynion wedi'i arddangos ym man aros y cleifion, ac roedd yn gadarnhaol nodi bod hwn yn cynnwys amserlenni byrrach ar gyfer cydnabod a datrys cwynion na'r amserlenni a nodir yng nghanllawiau'r GIG a'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Fodd bynnag, roedd y print ar y poster yn fach, ac roedd wedi'i osod yn uchel ar y wal. Gwnaethom siarad, felly, â rheolwr y practis, a gytunodd i gynhyrchu poster mewn print mwy o faint, ac i osod y wybodaeth mewn man mwy amlwg yn y man aros er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch a gweladwy i'r cleifion. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd y ddeintyddfa wedi derbyn unrhyw gwynion/pryderon yn y ddwy flynedd diwethaf.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol. Gwelsom fod cofnodion y cleifion o safon uchel iawn yn gyffredinol.**

**Rydym wedi gwneud argymhellion i wella agweddau gweinyddol ar y broses amddiffyn rhag ymbelydredd, yn ogystal ag agweddau ar y gwaith cofnodi yng nghofnodion y cleifion. Gwnaethom hefyd nodi bod angen gwella'r amgylchedd clinigol yn y brif ystafell driniaeth ddeintyddol.**

<u>Offer radiograffeg</u>

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd hyn yn cynnwys dogfennau perthnasol yn ymwneud â hyfforddiant staff, gwiriadau diogelwch, cynnal a chadw cyfarpar, a phrofion.

Cadarnhaodd trafodaethau â'r tîm deintyddol fod ansawdd y sganiau pelydr-X a gymerid yn cael ei ystyried a'i gofnodi bob dydd.

Gwnaeth archwiliad o gynnwys y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, a sgyrsiau ag aelodau o'r tîm deintyddol, ddangos nad oedd y wybodaeth yn gyflawn. Yn benodol, nid oedd diagramau o'r man a reolir ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol wedi eu cwblhau, a golygai hyn nad oedd y staff wedi derbyn canllawiau clir ynglŷn â sut y gallent aros yn ddiogel wrth i gyfarpar pelydr-X gael ei ddefnyddio. Hefyd, nid oedd y rhestr o gyfarpar pelydr-X a ddefnyddid yn y ddeintyddfa'n gyflawn, ac nid oedd y ffeil yn cynnwys copi o'r arolwg ymbelydredd diweddaraf.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae gofyn i'r ddeintyddfa ddangos sut y bydd yn sicrhau bod y ffeil diogelwch ymbelydredd yn cynnwys yr wybodaeth i gyd yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.***

Cadarnhawyd gennym fod cyfarpar pelydr-X y ddeintyddfa wedi cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd, a gwelwyd rheolau lleol ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd.

<u>Cadw cyffuriau ac offer ar gyfer argyfwng</u>

Roedd gweithdrefnau ar waith gan y practis i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant am sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywiad cardio-

pwlmonaidd. Roedd offer dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael pe bai argyfwng cleifion (cwympiad) yn y practis. Roedd cofnodion ar gael a oedd yn cadarnhau bod gwiriadau rheolaidd ar waith i sicrhau bod cyffuriau a/neu gyfarpar yn cael eu newid cyn eu dyddiad dod i ben. Yr unig eithriad i hyn oedd y ffaith nad oedd cofnodion yn ymwneud â gwirio'r cyflenwad ocsigen brys. Gwnaethom gynghori'r staff i gofnodi'r gwiriadau rheolaidd yr oeddent yn eu gwneud yn hyn o beth. Dylai'r ddeintyddfa hefyd ystyried gwirio'r cyfarpar brys bob wythnos, yn hytrach na bob mis, yn unol â chanllawiau dadebru presennol y DU.

Dadheintio

Roedd gan y practis ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Gwnaethom gynnal sgyrsiau â'r staff, ac roeddem yn fodlon bod prosesau addas a hirsefydlog ar waith i leihau'r risg o groes-heintio er mwyn amddiffyn y cleifion. Gwelsom fod cyfarpar addas ar waith at ddibenion dadheintio, ac roedd popeth i'w gweld mewn cyflwr da. Roedd sinc golchi dwylo neilltuedig ar gael, ac roedd eitemau tafladwy (megis cyfarpar diogelu llygaid, menig a ffedogau) ar gael i helpu staff â'u gweithdrefnau rheoli heintiau.

Gwelsom fod y ddeintyddfa wedi cwblhau archwiliad trylwyr o'r trefniadau atal a rheoli heintiau ym mis Ionawr 2015, gan ddefnyddio dogfennau a oedd yn cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[4] Roedd gan y feithrinfa hefyd wiriadau dyddiol ac wythnosol priodol wedi eu cofnodi, er mwyn sicrhau bod y broses ddadheintio'n effeithiol, a bod y cyfarpar yn dal i fod mewn cyflwr da er mwyn helpu i gadw cleifion yn ddiogel.

Gwnaethom gynnal trafodaethau â'r tîm deintyddol ynghylch dadheintio gwasgiadau deintyddol, a gwnaethom eu cynghori y dylent osod label clir ar fagiau cludo'r labordy, er mwyn dangos bod gwasgiadau unigol wedi cael eu dadheintio. Mae hyn am ein bod wedi gweld rhai bagiau nad oeddent yn cynnwys y wybodaeth honno.

---

[4] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) yn darparu canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Gwaredu gwastraff

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom hefyd fod gwastraff wedi cael ei ddidoli a'i roi mewn bagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau, sef y dull cywir o gael gwared arno. Roedd y rhain wedi eu storio mewn rhan o'r ddeintyddfa nad oedd yn cael ei defnyddio gan y cyhoedd, cyn iddynt gael eu casglu. Golygai hyn fod gan y practis system ar waith i reoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel.

Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth yn y practis, a chanfuom fod y rhain yn cynnwys offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Gwnaethom nodi bod yr holl ystafelloedd triniaeth yn lân ac yn daclus. Yn gyffredinol, roedd yr offerynnau wedi'u storio'n briodol i osgoi halogi. Fodd bynnag, canfuom fod angen gwella'r trefniadau ar gyfer storio rhai eitemau bach a elwir yn ddriliau danheddog (*burs*)[5] (ar ôl eu dadheintio).

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae gofyn i'r ddeintyddfa ddisgrifio sut y mae wedi gwella'r trefniadau ar gyfer storio driliau danheddog ar ôl iddynt gael eu glanhau a'u sterileiddio, er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu heintio eto.***

Gwelsom fod bwlch rhwng y llawr a rhai o'r cypyrddau gwaelod yn yr ystafell driniaeth fwyaf. Yn ôl canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, dylid sicrhau bod yr arwynebau gwaith a'r gorchuddion llawr heb fylchau, lle bo'n bosibl. Lle nad oes modd osgoi uniadau, dylent gael eu selio neu eu hasio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod yr arwynebau gwaith a'r gorchuddion llawr heb fylchau, lle bo'n bosibl. Lle nad oes modd osgoi uniadau, dylent gael eu selio neu eu hasio.***

Mae adran 6.47 Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 hefyd yn nodi na ddylai carpedi fod yn bresennol mewn unrhyw fannau clinigol. Cynghorwyd y tîm deintyddol, felly, y dylent gynllunio i dynnu'r carped oddi yno yn y dyfodol, a gosod defnydd nad yw'n dreiddiadwy ac y gellir ei lanhau'n hawdd.

[5] Defnyddir driliau danheddog i dorri meinweoedd caled fel dannedd neu esgyrn.

Gwelsom fod crac bach yn yr ateg pen blastig sy'n rhan o'r gadair ddeintyddol yn yr ystafell driniaeth ddeintyddol fwyaf. Er bod hon yn cael ei diogelu rywfaint gan orchudd plastig untro, roedd posibilrwydd o groes-heintio. Roedd angen glanhau'r man rhwng yr ateg pen a rhan uchaf y gadair hefyd, oherwydd roedd llwch yno. Gwnaeth y tîm deintyddol fynegi parodrwydd i fynd i'r afael â'r materion hyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Cynghorir y practis deintyddol bod angen dangos pa gamau gweithredu a gymerir i sicrhau bod y gadair ddeintyddol yn y brif ystafell driniaeth yn cael ei hatgyweirio i'r cyflwr gorau posibl. Mae hon yn ffordd o amddiffyn cleifion rhag croes-heintio.***

## Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o ddeg o gofnodion cleifion sy'n gysylltiedig â'r ddau ddeintydd sy'n gweithio yn y practis. Yn gyffredinol, roedd y cofnodion a welsom o safon uchel.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhai o'r cofnodion yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Yn benodol, roedd angen i'r tîm deintyddol wella o ran cofnodi agweddau ar ymgynghoriadau'r cleifion:

- Dylai nodiadau cleifion gynnwys cofnod o'r esboniad a'r cyfiawnhad ar gyfer y math o driniaeth a ddarperir (gan gynnwys sut y bydd pydredd dannedd yn cael ei waredu a pha fath o ddeunydd a ddefnyddir i warchod y bywyn[6] ac i adfer y dant)
- Dylid cadw cofnodion clir ynglŷn â defnyddio anesthetig lleol, a rhif y swp
- Dylai cofnodion cleifion gynnwys manylion unrhyw gyfarwyddiadau ôl-driniaeth a roddir i gleifion ar ôl iddynt gael triniaeth
- Dylai fod cofnod clir o sut y mae'r claf wedi cydsynio i'r driniaeth ar y diwrnod hwnnw

[6] Y rhan sydd yng nghanol y dant yw bywyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r ddeintyddfa ddangos sut y bydd yn sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth fel y pennir gan y canllawiau proffesiynol presennol a'r Safonau Iechyd a Gofal.***

Gwelsom fod cleifion yn cael cynnig sganiau pelydr-X yn ystod cyfnodau amser priodol, a bod ansawdd y sganiau pelydr-X yn cael ei fonitro.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd y ddeintyddfa wedi'i hen sefydlu ac roedd yn cael ei rhedeg yn dda gan y prif ddeintydd a rheolwr practis, ac roedd y ddau ohonynt yn cael eu cynorthwyo gan dîm bach brwdfrydig ac eiddgar. Roedd gan y practis systemau rheoli a phrosesau priodol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion.**

Mae Deintyddfa Colchester yn wasanaeth deintyddol sefydledig. Dywedodd y staff y siaradwyd â nhw eu bod yn derbyn cefnogaeth dda iawn yn eu gwaith, a'u bod yn gallu cael cyngor a chymorth yn ôl yr angen.

Roedd y prif ddeintydd yn cymryd rhan weithredol o ran rhedeg a rheoli'r ddeintyddfa o ddydd i ddydd, ac roedd yn gweithio'n agos â rheolwr y practis. Roedd ystod o bolisïau, systemau rheoli a phrosesau cyfredol ar waith i sicrhau bod triniaethau'n cael eu darparu'n ddiogel i gleifion. Er enghraifft, gwelsom dystiolaeth o archwiliad atal a rheoli heintiau/dadheintio diweddar (Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05) a oedd yn dangos bod y ddeintyddfa yn rhoi pwyslais ar gydymffurfio. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag croes-heintio cyn belled ag y bo modd.

Roedd y ddeintyddfa'n aelod o raglen arferion da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain. Trwy ddod yn aelodau o'r rhaglen sicrwydd ansawdd hon a gynhelir ledled y DU, mae practisau'n dangos ymrwymiad gweladwy i ddarparu gofal deintyddol o ansawdd da sy'n cyrraedd safonau a gydnabyddir yn genedlaethol.

O drafod â'r prif ddeintydd ac aelodau eraill o'r tîm deintyddol, gwelwyd bod lefelau trosiant a salwch/absenoldebau staff yn isel iawn. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael gofal a thriniaeth gan dîm deintyddol a oedd yn gyfarwydd iddynt.

Mae'r ddeintyddfa'n defnyddio nyrsys deintyddol o asiantaeth weithiau pan nad yw eu staff rheolaidd ar gael. Gwnaethom siarad ag aelod o'r tîm deintyddol am y trefniadau sydd ar waith er mwyn gwirio pa mor gymwys oedd nyrsys asiantaeth, ac fe'n hysbyswyd bod y ddeintyddfa bob amser yn cael sicrwydd ar lafar ynglŷn â pha mor addas yw nyrsys o'r asiantaeth, a'u bod yn teimlo bod y wybodaeth hon yn ddibynadwy. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r ddeintyddfa y dylid gofyn hefyd am gofnod ysgrifenedig o'r cymwysterau a'r hyfforddiant a gwblhawyd pan eu bod yn defnyddio nyrsys asiantaeth yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod y staff asiantaeth yn addas.

Gwelsom fod rhaglen hyfforddi briodol wedi'i sefydlu ar gyfer sicrhau bod staff newydd yn cael hyfforddiant sefydlu effeithiol. Golygai hyn fod y cleifion yn cael

eu trin gan staff a oedd wedi derbyn hyfforddiant a chymorth i ddod yn gyfarwydd â'u swydd a phrosesau'r practis.

Dywedodd y staff y siaradwyd â nhw eu bod yn fodlon ar eu swyddogaethau yn y ddeintyddfa, a bod y tîm yn cydweithio'n dda. Dywedwyd wrthym y cynhelir cyfarfodydd staff tua bob tri mis ac y darperir nodiadau ar eu cyfer a gofnodwyd yn ystod cyfarfodydd diweddar. Roedd y nodiadau'n dangos bod amrywiaeth o bynciau perthnasol wedi'u trafod. Roedd y rhain yn cynnwys syniadau ar gyfer hyfforddiant staff a threfniadau cyflenwi brys. Golygai hyn fod gan y staff fecanwaith ffurfiol ar gyfer trafod pryderon ac ar gyfer cael y wybodaeth ddiweddaraf am brosesau'r practis a'u swyddogaethau.

Cadarnhawyd yn ystod ein sgyrsiau â'r staff bod unrhyw bryderon ynghylch darparu gofal a thriniaeth i gleifion yn cael eu trafod yn anffurfiol bob dydd, ac y gwneir gwelliannau i ddarpariaeth y gwasanaeth yn unol â hynny.

Gwnaethom fwrw golwg ar bedair ffeil datblygiad proffesiynol parhaus, ac yn gyffredinol canfuom fod pob aelod o staff dan sylw wedi derbyn cyfleoedd hyfforddiant perthnasol, yn unol â'r canllawiau proffesiynol. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff sydd â sgiliau addas ac sydd wedi diweddaru eu hyfforddiant.

Fodd bynnag, canfuom nad oedd aelodau o'r tîm deintyddol wedi cael hyfforddiant diweddaru ynglŷn ag amddiffyn plant, ac nid oeddent wedi derbyn hyfforddiant cychwynnol yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer amddiffyn oedolion. Gwelsom hefyd fod angen mân ddiwygiadau i'r polisïau a oedd ar waith (gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer timau diogelu plant ac oedolion lleol er mwyn helpu'r staff). Cytunodd rheolwr y practis i fynd i'r afael â'r mater hwn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Cynghorir y ddeintyddfa bod angen dangos bod trefniadau ar waith i ddarparu hyfforddiant i'r staff am weithdrefnau amddiffyn oedolion a phlant.***

Gwelwyd tystiolaeth o roi brechiadau hepatitis B ac o gofnodion imiwnedd yn y ffeiliau staff. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd camau priodol i amddiffyn staff a chleifion. Dywedwyd wrthym hefyd bod cymorth a chyngor ynglŷn â'u gwaith ar gael i'r tîm deintyddol gan adran iechyd galwedigaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn ôl yr angen.

Gwnaethom archwilio amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw yn y practis. Roedd modd i ni, felly, gadarnhau bod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod y cyfarpar yn cael ei archwilio yn unol â'r gofynion rheoliadol, fel bod cleifion yn gallu cael eu trin yn ddiogel.

Roedd tystysgrifau AGIC wedi’u harddangos mewn man amlwg yn y ddeintyddfa, ond roedd angen diweddaru un ohonynt. Hysbyswyd rheolwr y practis am y broses sydd ar waith ar gyfer cael tystysgrif newydd.

Roedd trefniadau addas ar waith i gadw cofnodion cleifion a'u gwybodaeth gyfrinachol yn ddiogel.

Gwelsom fod y poster Iechyd a Diogelwch a arddangoswyd yn cynnwys manylion cyswllt priodol fel sy'n ofynnol.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Gwelsom fod amgylchedd y practis yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.**

Darperir gwasanaethau Deintyddfa Colchester o adeilad masnachol wedi'i drosi, yn ardal Pen-y-lan yng Nghaerdydd. Roedd lleoedd parcio am ddim ar gael yn uniongyrchol y tu allan i adeilad y practis.

Roedd gan y practis ddwy ystafell driniaeth ddeintyddol, derbynfa a man aros, ac roedd pob un ohonynt ar yr un lefel. Cadarnhaodd sgyrsiau gyda'r staff fod cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn gallu mynd i mewn i'r safle a'r ystafelloedd triniaeth i dderbyn gofal a thriniaeth.

Roedd yr ystafell aros yn olau, yn lân ac yn fan cyfforddus lle gallai cleifion aros i weld y deintydd. Wrth arsylwi, gwelsom fod maint y man aros yn briodol o ystyried nifer y cleifion sy'n mynychu'r practis.

Cyflwynid negeseuon iechyd deintyddol i gleifion yn y man aros ar sgrin deledu fawr. Gwelsom hefyd hysbysfwrdd a oedd yn rhannu gwybodaeth â chleifion ynglŷn ag archwiliadau deintyddol, cyfarpar a ddefnyddir mewn deintyddiaeth, ac esboniad o sut mae offer deintyddol yn cael ei lanhau ar ôl cael ei ddefnyddio.

Roedd rhif cyswllt y tu allan i oriau gwaith wedi'i arddangos yn glir ar ffenestr y practis. Roedd hyn yn golygu y sicrheir bod cleifion ac aelodau o'r cyhoedd yn gwybod sut i gael gofal a thriniaeth ddeintyddol ar frys pan fo'r practis ar gau.

Roedd enw a chymwysterau dim ond un o'r ddau ddeintydd sy'n gweithio yn y ddeintyddfa wedi eu harddangos ar flaen yr adeilad. Cynghorwyd y ddeintyddfa, felly, bod angen ychwanegu manylion yr ail ddeintydd, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd yr unig doiled yn y practis wedi'i leoli'n agos at y man aros. Roedd arwyddion ato, ac roedd i'w weld yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas i atal croes-heintio.

Roedd gan y staff fynediad at gegin/cyfleuster newid yn yr adeilad. Gwelsom fod y man hwn yn anniben ac yn flêr; tynnwyd sylw aelodau o'r tîm deintyddol at y mater hwn.

Fel arall, gwelsom fod y ddeintyddfa'n lân, yn daclus ac yn hylan drwyddi draw, a'i bod mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Roedd arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Neintyddfa Colchester yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Deintyddfa Colchester

## Dyddiad yr Arolygiad: 19 Mai 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| | Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ymwneud â'r thema hon. | | | |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| Tudalen 9 | Mae gofyn i'r ddeintyddfa ddangos sut y bydd yn sicrhau bod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cynnwys yr holl wybodaeth.<br><br>[Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000] | Cwblhaodd Melanie James a Dr Mays Mahdi yr holl wybodaeth angenrheidiol yn y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd. | Melanie James | 19 06 15 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Tudalen 11 | Mae gofyn i'r ddeintyddfa ddisgrifio sut y mae wedi gwella'r trefniadau ar gyfer storio driliau danheddog ar ôl iddynt gael eu glanhau a'u sterileiddio, er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu heintio eto.<br><br>[Canllawiau WHTM 01-05 (4.27, tudalen 36)] | Gwnaeth Melanie James archebu standiau â gorchudd i'r driliau danheddog ym mhob ystafell driniaeth. | Melanie James | 19 06 15 |
| Tudalen 11 | Dylai'r practis sicrhau bod yr arwynebau gwaith a'r gorchuddion llawr heb fylchau, lle bo'n bosibl. Lle nad oes modd osgoi uniadau, dylent gael eu selio neu eu hasio.<br><br>[WHTM 01-5, 6.47 a 6.48, tudalen 44; Safon Iechyd a Gofal 2.9; Safon 1.5 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol] | Mae'r llawr yn ystafell driniaeth ddeintyddol Dr Afroz wedi'i ailosod ac wedi'i selio eto. | Melanie James | 19 06 2015 |
| Tudalen 12 | Cynghorir y practis deintyddol bod angen dangos pa gamau gweithredu a gymerir i sicrhau bod y gadair ddeintyddol yn y brif ystafell driniaeth yn cael ei hatgyweirio i'r cyflwr gorau posibl. Mae hon yn ffordd o amddiffyn cleifion rhag croes-heintio.<br><br>[WHTM 01-05 6.62, a'r nodyn, tudalen 46; | Mae darn ar gyfer y gadair ddeintyddol wedi'i archebu, a bydd yn cael ei osod. Yn y cyfamser, bydd gorchuddion untro yn cael eu defnyddio a'u newid ar ôl pob claf. | Melanie James | 19 06 15 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Safonau Iechyd a Gofal 2.9; Safon y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5] | | | |
| Tudalen 13 | Rhaid i'r ddeintyddfa ddangos sut y bydd yn sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth fel y pennir gan y canllawiau proffesiynol presennol a'r Safonau Iechyd a Gofal.<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 3.3, 3.5 a 4.2; Safon 4 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol] | Bydd deintyddion yn sicrhau cydymffurfiaeth drwy ddefnyddio archwiliadau. | Melanie James | 19 06 15 |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| Tudalen 14 | Cynghorir y ddeintyddfa bod angen dangos bod trefniadau ar waith i ddarparu hyfforddiant i'r staff am weithdrefnau amddiffyn oedolion a phlant.<br><br>[Safon Iechyd a Gofal 2.7; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.3.3 a 8.5] | Mae hyfforddiant staff wedi'i drefnu drwy'r adran ôl-raddedig, a bydd yn cael ei gynnal ar 20 Medi 2015. | Melanie James | 19 06 15 |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| | Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ymwneud â'r thema hon. | | | |

**Cynrychiolydd y practis:**

| | |
|---|---|
| **Enw (llythrennau bras):** | **Melanie James** |
| **Teitl:** | **Rheolwr y Practis** |
| **Dyddiad:** | **19 Mehefin 2015** |